

Teitl: Title:	Polisi Cludiant Myfyrwyr
--------------------------------	--------------------------



Cydraddoldeb ac Amrywiaeth / Equality & Diversity

Dolen at Gam 1 Asesu'r Effaith ar Gydraddoldeb: / Equality Impact Assessment Stage 1 Link:	
Dolen at Gam 2 Asesu'r Effaith ar Gydraddoldeb: / Equality Impact Assessment Stage 2 Link:	
Cynllun Gwella Asesu'r Effaith ar Gydraddoldeb / Equality Impact Assessment Improvement Plan	
<i>Effaith ar yr Iaith Gymraeg</i> <i>Mae asesiad effaith wedi'i gynnal ar y polisi hwn i ystyried ei effaith ar yr iaith Gymraeg yn unol â Safonau'r Gymraeg (94-104) a Mesur yr Iaith Gymraeg (Cymru) 2011.</i>	<i>Welsh Language Impact</i> An impact assessment has been carried out on this policy to consider its effect on the Welsh Language in accordance with the Welsh Language Standards (94-104) and the Welsh Language (Wales) Measure 2011.

Adolygu a Chymeradwyo / Review and Approval

Perchennog y Ddogfen: Document Owner:	<i>Cyfarwyddwr Cyllid</i>
Ymgynghoriad: Consultation:	
Corff Cymeradwyo: Approval Body:	<i>Corff Llywodraethu</i>
Dyddiad Cymeradwyo: Approval Date:	<i>Mehafin 2020</i>
Dyddiad Adolygu: Review Date:	<i>Mehafin 2021</i>
Fersiwn: Version	<i>2.0</i>

Cwmpas

Diben y polisi hwn yw darparu canllawiau ynghylch trefniadau cludiant y mae'r coleg yn eu rheoli i alluogi dysgwyr i gyrraedd a gadael pob safle'r Coleg.

Mae'r Awdurdod Addysg Lleol priodol yn darparu cludiant o'r cartref i'r ysgol / coleg ar gyfer pob dysgwr sy'n astudio'n llawn amser ac sydd dan 19 oed ar 1 Medi yn y flwyddyn academaidd gofrestru.

O dan delerau'r Polisi Cludiant Myfyrwyr, bydd Coleg Cambria yn cysylltu â'r awdurdod lleol perthnasol i benderfynu ar y defnydd mwyaf effeithlon o adnoddau i ddarparu'r dull mwyaf effeithiol o gludiant. Efallai bydd hyn yn cynnwys gwasanaeth contract y coleg / awdurdod lleol, bws cyhoeddus neu hurio preifat (taksi) o'r cartref i safle coleg dynodedig. Mewn rhai achosion, efallai bydd mwy nag un math o gludiant yn cael ei ystyried i drosglwyddo myfyrwyr i safleoedd astudio eraill.

Y Fframwaith Cyfreithiol

Mae'r Ddeddf Addysg 1996 (fel y'i diwygiwyd) yn nodi'r gyfraith ar gyfer presenoldeb disgyblion mewn ysgolion ac mae Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008 yn nodi'r ddarpariaeth gysylltiedig ar gyfer cludiant ysgolion a dysgwyr yng Nghymru. Ymhlith materion eraill, mae'r Mesur yn cynnwys gosod dyletswyddau ar awdurdodau lleol i asesu teithio gan ddysgwyr a threfnu cludiant ar gyfer grwpiau diffiniedig o ddysgwyr.

Polisi Cludiant Awdurdodau Addysg Lleol

Mae'n ofynnol i Awdurdodau Addysg Lleol (AALI) benderfynu a oes angen darparu cludiant i ddisgyblion oedran ysgol statudol er mwyn hwyluso presenoldeb disgyblion mewn manau dysgu dynodedig. Os tybir bod angen cludiant o'r fath, yna mae'n rhaid ei ddarparu am ddim.

Cyfleoedd Cyfartal

Bydd y coleg yn cydymffurfio â Deddf Gwahaniaethu ar Sail Rhyw 1975, Deddf Cysylltiadau Hiliol (Diwygio) 2000, Deddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd 1995 (fel y'i diwygiwyd gan y Ddeddf Anghenion Addysgol Arbennig ac Anabledd 2001), Deddf Adsefydlu Troseddwyr 1974, Deddf Hawliau Dynol 1998 (neu unrhyw ddeddfiad sy'n eu haddasu neu'n eu disodli) a'r holl ddyletswyddau statudol perthnasol sydd yn gysylltiedig â chyfleoedd cyfartal.

Dysgwyr ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) a'r Datganiad Anabledd

Bydd y coleg yn rhoi ystyriaeth arbennig i ddarpariaethau Deddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd 1995 (fel y'i diwygiwyd gan y Ddeddf Anghenion Addysgol Arbennig ac Anabledd 2001) o ran y polisi hwn.

Mae'r Ddeddf yn berthnasol i bobl sy'n anabl yn unol â'r diffiniad o anabledd yn y Ddeddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd 1995. Hynny yw, unigolyn anabl yw rhywun sydd â nam corfforol neu feddyliol sy'n effeithio ar ei allu neu ar ei gallu i gyflawni gweithgareddau arferol o ddydd i ddydd. Mae'n rhaid i'r effaith hwnnw fod:

1. yn sylweddol (hynny yw, yn fwy nag effaith bach neu ddibwys), ac
2. yn anffafriol, ac
3. yn dymor hir (hynny yw, ei fod wedi parhau neu ei fod yn debygol o barhau am o leiaf 12 mis neu am weddill oes yr unigolyn yr effeithir arno).

Mae'r coleg wedi ymrwymo i gymryd pob cam rhesymol i weithredu neu i addasu'r polisi, gan ystyried amgylchiadau pob unigolyn. Gall y camau rhesymol gynnwys, er enghraifft, dogfennau fformat amgen a threfniadau cyfarfod arbennig (sylwer nad yw'r enghreifftiau hyn yn gynhwysfawr).

GWEITHDREFN GWNEUD CAIS

Bydd RHAID i bob myfyriwr sy'n dymuno gwneud cais am gludiant lenwi ffurflen 'Cais am Gludiant' bob blwyddyn.

Mae rhai AALI yn gofyn i fyfyrwyr lenwi eu ffurflen Gais am Gludiant eu hunain hefyd, yn ogystal â ffurflen y coleg. Bydd yr Adran Gludiant yn eich cynghori os oes angen gwneud hynny.

*Sylwer mai gwneud CAIS YN UNIG a fyddwch wrth lenwi ffurflen 'Cais am Gludiant' –
nid yw'n golygu y bydd cludiant yn cael ei ddarparu'n awtomatig.*

Bydd pob cais yn cael ei asesu ar gyfer cymhwysedd ar ei rinweddau ei hun ac amgylchiadau pob unigolyn, e.e. bydd yr union gyfeiriad a'r cwrs astudio yn gallu effeithio ar gymhwysedd.

Mae pob cais am gludiant yn cael ei weinyddu gan y Cydlynnydd Cludiant yn unol â Pholisi Cludiant Myfyrwyr y Coleg.

Mae'r Polisi Cludiant Myfyrwyr ar gael ar Wefan y Coleg a Mewnrwyd y Myfyrwyr. Bydd pob myfyriwr yn dod i wybod sut a ble i ddod o hyd i bolisiau'r coleg yn ystod y cyfnod ymsefydlu. Mae'r wybodaeth hon ar gael yn y prospectws hefyd. Mae gwybodaeth hefyd ar gael yn ystod y cyfweiliadau derbyn, digwyddiadau agored y coleg neu drwy alw heibio'r adran Gwasanaethau Myfyrwyr ar unrhyw safle'r coleg.

Os cymeradwyir darparu cludiant, bydd y man codi myfyrwyr yn cael ei gadw ar system gwybodaeth reoli'r coleg, ynghyd â manylion y myfyrwyr. Yn unol â'r Ddeddf Diogelu Data, efallai bydd y wybodaeth berthnasol yn cael ei rhoi i bobl a sefydliadau y tu mewn a'r tu allan i'r coleg, gan gynnwys cwmnïau bysiau perthnasol, sy'n gyfrifol am ddarparu'r cludiant.

Mae'r Lwfans Cynhaliath Addysg (LCA) a Grant Dysgu'r Cynulliad (GDC) yn daliadau a wneir i ddysgwyr yn dibynnu ar incwm yr aelwyd. Bwriad yr arian yw helpu gyda threuliau o ddydd i ddydd fel teithio. Dan y cynlluniau LCA a GDC, disgwylir i'r dysgwyr gyfrannu cyfran resymol o'u LCA neu GDC tuag at eu costau cludiant.

CYMHWYSEDD

Mae Coleg Cambria yn hyrwyddo ac yn cefnogi teithio annibynnol ar gyfer pob myfyriwr. Dim ond myfyrwyr a gweithwyr a gafodd eu hawdurdodi a'u cymeradwyo caiff deithio ar gludiant y coleg.

Bydd cludiant am ddim yn cael ei ddarparu i ddysgwyr sy'n bodloni'r meini prawf a nodwyd yn Atodiad 1.

Bydd pob cais nad yw'n cydymffurfio â'r Polisi Cludiant Myfyrwyr yn cael ei ystyried gan Banel Cludiant annibynnol. Bydd y Panel yn cynnwys dau o'r deiliaid swyddi canlynol: Pennaeth Gwasanaethau Myfyrwyr, Cyfarwyddwr Cyllid a Phennaeth Cynorthwyol.

Caiff y terfyn tair milltir ei fesur ar hyd y llwybr cerdded agosaf a diogel sydd ar gael. Os yw'n rhaid cyfrifo milltiroedd a llwybrau rheiddiol er mwyn penderfynu cymhwysedd dan y polisi hwn, bydd y coleg yn defnyddio System Gwybodaeth Ddaearyddol gyfrifiadurol.

Nid o'r cartref y darperir cludiant fel arfer, ond o fan casglu a gafodd ei gymeradwyo. Darperir cludiant gwennol ar gyfer myfyrwyr cymwys dan 19 oed, neu sydd ag anabledd dysgu neu gorfforol, sydd â'u man codi agosaf ymhellach na 3 milltir o'r man codi dynodedig agosaf ar lwybr cludiant y coleg.

Dylai myfyrwyr sydd angen trefniadau cludiant ychwanegol dros dro oherwydd cyflyrau meddygol (e.e. torri coes) gysylltu â'r Cydlynnydd Cludiant i ddechrau, a bydd yn ceisio trefnu darpariaeth briodol a thros dro.

Efallai gellir talu costau cludiant cyhoeddus neu lwfans petrol os bydd myfyrwyr yn cael problemau teithio yn ôl ac ymlaen i'r coleg oherwydd camgymeriad gan weithredwr cludiant.

Cludiant Ôl-19 oed: Polisi Seddi Gwag

Nid oes gan y coleg unrhyw gyfrifoldeb cyfreithiol i ddarparu cludiant i fyfyrwyr sy'n hŷn na 19 oed. Ond waeth beth fo'u hoed, nid yw myfyrwyr sy'n byw o fewn 3 milltir i'r coleg yn gymwys i gael unrhyw gymorth tuag at eu cludiant i'r coleg nac oddi yno.

Os oes myfyrwyr 19 oed neu hŷn yn dymuno teithio ar fws y coleg, gallant wneud hynny ar yr amod bod lle ar gael a bod seddi wedi'u dyrannu i bob myfyriwr 16-18 oed arall.

DYSGWYR AG ANGHENION DYSGU YCHWANEGOL A/NEU ANABLEDDAU

Mae'r Mesur Dysgwyr Cymru (Teithio) yn nodi bod rhaid i'r awdurdod lleol, wrth ystyried a yw trefniadau teithio yn addas, roi sylw penodol i unrhyw anabledd a/neu anhawster dysgu unrhyw fyfyrwr. Mewn ymateb i'r mesur hwn, bydd disgyblion sy'n byw o fewn y pellter cymhwyso safonol yn gymwys i gael cludiant am ddim os ydynt yn bodloni'r meini prawf ar gyfer anghenion meddygol, anabledd neu anawsterau dysgu.

16-18 oed:

Bydd myfyrwyr sy'n byw o fewn y pellter cymhwyso safonol yn gymwys i gael cludiant am ddim os ydynt yn bodloni'r meini prawf ar gyfer anghenion meddygol, anabledd neu anawsterau dysgu.

Swyddog Datganiadau'r Awdurdod perthnasol fydd yn rheoli'r disgresiwn hwn, ar ôl derbyn yr asesiadau a'r adroddiadau priodol. Dim ond os oes tystiolaeth ar gael gan weithiwr proffesiynol cydnabyddedig y bydd trefniadau cludiant arbennig yn cael eu hystyried.

Bydd disgwyl i bob myfyriwr sy'n mynychu darpariaeth brif ffrwd ddefnyddio prif wasanaeth cludiant y coleg.

19+ oed:

Ystyrir cais am gymorth gyda chludiant os oes gan unigolyn gyflwr meddygol, anabledd neu anhawster dysgu ac nid yw'n derbyn cymorth ariannol gyda symudedd a/neu Motability.

Mae'n rhaid cael datganiad i gefnogi hynny gan o leiaf dau weithiwr proffesiynol cydnabyddedig, e.e. ymgynghorydd ysbyty, meddyg teulu.

Bydd angen tystiolaeth i ddangos nad yw'r myfyriwr yn hawlio Lwfans Symudedd / Motability.

Os yw dysgwr yn cael naill ai:

- Efen Symudedd Cyfradd Uwch y Lwfans Byw i Bobl Anabl (DLA HMRC)
- Cyfradd Uwch elfen Symudedd y Taliad Annibyniaeth Bersonol (PIP ERM)
- Lwfans Motability

yna ni fydd yn gymwys i dderbyn cymorth ychwanegol gan y coleg.

Bydd disgwyl i bob myfyriwr sy'n mynychu darpariaeth brif ffrwd ddefnyddio prif wasanaeth cludiant y coleg.

Dylid cyfeirio pob achos at y Pennaeth Gwasanaethau Myfyrwyr cyn eu cymeradwyo.

CLUDO DIBYNYDDION

Ni chaniateir i ddibynyddion myfyrwyr deithio ar gludiant y coleg oherwydd rheoliadau yswiriant. Os oes gennych chi anawsterau penodol gyda chludiant, siaradwch â'r Cydlynnydd Cludiant i gael rhagor o gymorth.

YMDDYGIAD

Hysbyswyd darparwyr cludiant eu bod i roi gwybod am bob achos o gamymddwyn i'r Cydlynnydd Cludiant. Defnyddir Gweithdrefnau Disgyblu'r coleg i ymateb i bob adroddiad am gamymddwyn.

Mae Cod Ymddygiad y coleg yn berthnasol i bob myfyriwr sydd wedi eu cymeradwyo i deithio ar gludiant y coleg. Bydd unrhyw ymddygiad sy'n torri'r cod hwnnw yn cael ei drin yn unol â'r gweithdrefnau disgyblu'r coleg. Efallai bydd myfyrrwyr yn cael eu gwahardd rhag defnyddio gwasanaeth cludiant y coleg yn barhaol.

Y BROSES APELIO

Bydd Panel Apêl Cludiant Annibynnol yn cael ei gynnal i ystyried unrhyw apêl yn erbyn penderfyniad y Panel Cludiant. Bydd yr apelydd yn cael gwybod am benderfyniad y panel o fewn 10 niwrnod gwaith ar ôl cael yr apêl.

ANSAWDD

Bydd yr AALI yn sicrhau safon y gwasanaeth trwy roi contractau i weithredwyr trwyddedig priodol yn unig.

Efallai bydd y coleg yn cael mân gwynion a sylwadau gan fyfyrwyr ynghylch y cludiant. Bydd y Cydlynnydd Cludiant yn ymdrechu i fynd i'r afael â'r cwynion hyn o fewn dau ddiwrnod gwaith gyda'r AALI a'r contractwr cludiant perthnasol. Ymdrinnir â chwynion mwy difrifol trwy weithdrefn gwyno arferol y coleg.

MONITRO AC ADOLYGU'R POLISI

Oherwydd natur ddeinamig y gwasanaeth, ac yn ddibynnol ar yr adnoddau sydd ar gael, efallai bydd y Pennaeth Gwasanaethau Myfyrwyr, gyda'r Cydlynnydd Cludiant, yn gofyn am gael adolygu'r Polisi Cludiant Myfyrwyr yn ystod y flwyddyn academaidd ac yn gynharach na dyddiad adolygu'r polisi y cytunwyd arno.

Atodiad 1: Bod yn gymwys i gael cludiant am ddim ar gyfer y prif lwybrau presennol

Safle Glannau Dyfrdwy

1.	Myfyriwr llawn amser	
2.	Yn byw ymhellach na 3 milltir o'r coleg	
3.	Dan 19 oed ar 1 Medi 2020	
4.	Yn byw yn siroedd:	Conwy
		Dinbych
		Y Fflint
		Wrecsam
		Caer (llwybrau dynodedig yn unig)
		Cilgwri (llwybrau dynodedig yn unig)

Safle Iâl

1.	Myfyriwr llawn amser	
2.	Yn byw ymhellach na 3 milltir o'r coleg	
3.	Dan 19 oed ar 1 Medi 2020	
4.	Yn byw yn siroedd:	Dinbych
		Y Fflint
		Gwynedd
		Wrecsam
		Amwythig (llwybrau dynodedig yn unig)

Safle Llysfasi

1.	Myfyriwr llawn amser	
2.	Yn byw ymhellach na 3 milltir o'r coleg	
3.	Dan 19 oed ar 1 Medi 2020	
4.	Yn byw yn siroedd:	Conwy
		Dinbych *
		Y Fflint *
		Gwynedd
		Wrecsam *

*Os yw'r myfyriwr yn byw ymhellach na 3 milltir o unrhyw un o fannau codi'r coleg, yna byddant yn gymwys i gael cludiant taci cysylltiol.

Safle Llaneurgain

1.	Myfyriwr llawn amser	
2.	Yn byw ymhellach na 3 milltir o'r coleg	
3.	Dan 19 oed ar 1 Medi 2020	
4.	Yn byw yn siroedd:	Dinbych
		Y Fflint
		Wrecsam
		Caer (llwybrau dynodedig yn unig)
		Cilgwri (llwybrau dynodedig yn unig)

Safle Ffordd y Bers

1.	Myfyriwr llawn amser	
2.	Yn byw ymhellach na 3 milltir o'r coleg	
3.	Dan 19 oed ar 1 Medi 2020	
4.	Yn byw yn siroedd:	Dinbych
		Y Fflint
		Gwynedd
		Wrecsam
		Amwythig (llwybrau dynodedig yn unig)